


Cynllun a Chefnogaeth Gymunedol



Cynllun a Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol

Mae cynllun ateb a'i wasanaeth cefnogi cymunedol yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i denantiaid 55+ oed.



Ariannir y gwasanaeth drwy Grant Taliad Cefnogi Pobl sy'n talu am gymorth ymarferol sy'n galluogi tenantiaid i gynnal eu tenantiaeth mor annibynnol â phosib.

Lleolir ein tîm o Gydlynwyr Cymuned a Chynllun yng nghartrefi lloches ateb ym Mhenfro, Aberdaugleddau, Hwlfordd, Arberth a Dinbych y Pysgod. Maent yn darparu cymorth gydag amrywiaeth eang o arweiniad ymarferol, cyngor a help yn y cynllun lloches Lle maent wedi'u lleoli ac yn y gymuned.

Maent yn darparu cymorth a chefnogaeth â:

- Ymgartrefu yn eich cartref a sefydlu'r gwasanaethau.
- Ymweliad neu alwad beunyddiol neu wythnosol.
- Cael mynediad i wasanaethau megis meddyg, deintydd neu ysbyty.
- Hawlio budd-daliadau i fwyafu incwm.
- Bod yn rhan o'ch cymuned.
- Rheoli dyled a chyllidebu tŷ.
- Trefnu addasiadau i'ch helpu i ymdopi ag anabledd.
- Trefnu atgyweiriadau.
- Trefnu cymorth proffesiynol gan asiantaethau eraill.
- Cynnal perthnasoedd da.



Nid yw cefnogi pobl am ofal personol megis cymorth wrth ymolchi a gwisgo, paratoi prydau o fwyd neu wneud tasgau tŷ megis golchi dillad, glanhau, smwddio ac ati. Fodd bynnag, gall eich Cydlynnydd Cymuned a Chynllun eich cynorthwyo i gael mynediad at yr help sydd angen arnoch.





Amcanion y Gwasanaeth Cymorth Cymuned a Lloches

- Eich bod chi'n teimlo'n ddiogel yn eich cartref ac yn y gymuned.
- Bod gennych chi gyfleoedd sy'n ehangu eich sgiliau, eich diddordebau a chyfeillgarwch.
- Eich bod chi'n teimlo y gallwch reoli'ch cartref a byw yn eich cymuned â'r cymorth a ddarperir.
- Bod eich anghenion yn cael eu hasesu a'u diwallu mewn modd cynlluniedig.
- Eich bod chi'n teimlo yr ymgynghorir â chi ac y cewch wybodaeth.
- Eich bod chi'n teimlo bod ein staff, sy'n derbyn hyfforddiant a chymorth addas, yn gefn i chi.

Safonau Gwasanaeth

Bydd pawb sy'n cyflwyno gwasanaethau cefnogi pobl yn ateb yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn eich trin â pharch. Byddwn yn:

- Siarad ac yn ymddwyn yn gwrtais.
- Osgoi gweiddi a chyfarwydd-deb heb ei ennill.
- Defnyddio'r enw yr hoffech chi gael ei ddefnyddio â chi.
- Parchu eich preifatrwydd.
- Sicrhau y cynhelir cyfrinachedd addas.
- Sicrhau bod cymorth yn gyson.
- Gweithio gyda'n gilydd fel tîm.





Am awgrymiadau, canmoliaeth a chwynion gallwch hefyd gysylltu â'r:

Tîm Cefnogi Pobl, Cyngor Sir Benfro,
Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP

Ffoniwch **01437 764551** neu anfonwch e-bost i
supporting.people@pembrokeshire.gov.uk



Cysylltu â ni.

Os ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod angen cymorth neu mae gennych awgrym, canmoliaeth neu gŵyn am y gwasanaeth.



**Galwch heibio
i'n gweld yn:**
Tŷ Meyler,
Comin Tomos Sant,
Hwlfordd, Sir Benfro,
SA61 1QP



**Cysylltwch
â ni ar:**
Ffôn → 01437 763688
Ffôn am ddim → 0800 854568
Ffacs → 01437 763997
E-bost → hello@atebgroup.co.uk

better living solutions

ateb